



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## Cylch gorchwyl ymchwiliad i fethiant posib i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

---

### 1. Rhif achos

CSG470

### 2. Enw'r person yr ymchwilir iddo

Cyngor Abertawe

### 3. Dyddiad rhoi hysbysiad am y cylch gorchwyl

06/02/2019

### 4. Disgrifiad o'r gŵyn a dderbyniwyd

Derbyniwyd dwy gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch materion yn ymwneud â chynnig y Cyngor i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre. Derbyniwyd y gŵyn gyntaf ar 6 Rhagfyr 2018. Mae'n ymwneud â'r modd y cynhaliodd y Cyngor ei ymgynghoriad ar y cynnig i gau'r ysgol. Derbyniwyd yr ail gŵyn ar 7 Ionawr 2019. Mae'n ymwneud â diffygion honedig yn y modd yr aseswyd effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r achwynydd yn honni:

- i) na wnaeth y Cyngor gynnal ymgynghoriad priodol am nad oedd y dogfennau ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn ynghylch sut y byddai'r penderfyniad yr ymgynghorwyd arno'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- ii) fod y Cyngor wedi methu ag ymateb yn briodol i sylwadau a gyflwynwyd am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.
- iii) fod dogfennau'r ymgynghoriad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y gofod a roddwyd ar gyfer cynnwys ymateb i rai cwestiynau yn llai yn y fersiynau Cymraeg o'u cymharu â'r fersiynau Saesneg.
- iv) na chyhoeddwyd yr asesiad ar addysg Gymraeg ar dudalennau Cymraeg y wefan yn ystod y broses ymgynghori.

- v) Na wnaeth y Cyngor gynnal asesiad priodol o effaith y penderfyniad i gau'r ysgol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol, ac nad yw'r asesiad o'r effaith ar addysg Gymraeg yn cwrdd gofynion safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod ar y Cyngor wrth iddynt wneud lunio, adolygu neu addasu polisi.

## 5. Methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol

### DYLETSWYDD I GYDYMFFURFIO Â SAFON

Mae'r gŵyn a gyflwynwyd yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau'r Gymraeg. Bydd yr ymchwiliad yn dyfarnu a yw Cyngor Abertawe wedi methu â chydymffurfio â'r safonau canlynol:

#### **Safon 48**

Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

#### **Safon 52**

Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

#### **Safon 88**

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

#### **Safon 89**

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

#### **Safon 90**

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

### **Safon 91**

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n positif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

### **Safon 92**

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

### **Safon 93**

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016**

## 6. Amserlen yr ymchwiliad

Cam yn yr ymchwiliad	Cyfnod a ganiateir
Rhoi hysbysiad i Gyngor Abertawe a'r achwynydd o'r cylch gorchwyl arfaethedig	
Derbyn sylwadau ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig gan Gyngor Abertawe a'r achwynydd	10 diwrnod gwaith yn dilyn rhoi hysbysiad Gyngor Abertawe a'r achwynydd o'r cylch gorchwyl arfaethedig
Rhoi hysbysiad i Gyngor Abertawe a'r achwynydd o'r cylch gorchwyl terfynol, a rhoi hysbysiad tystiolaeth i Gyngor Abertawe	5 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn y sylwadau ynghylch y cylch gorchwyl arfaethedig
Derbyn ymateb Gyngor Abertawe i'r hysbysiad tystiolaeth	15 diwrnod gwaith yn dilyn rhoi'r hysbysiad tystiolaeth
Rhoi hysbysiad i Gyngor Abertawe a'r achwynydd o'r dyfarniad arfaethedig a'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig	20 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn yr ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth
Derbyn sylwadau gan Gyngor Abertawe a'r achwynydd ynghylch y dyfarniad arfaethedig a'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig	20 diwrnod gwaith yn dilyn rhoi hysbysiad i Gyngor Abertawe a'r achwynydd o'r dyfarniad arfaethedig a'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig
Dyfarnu a fu methiant i gydymffurfio â safonau ai peidio; rhoi'r hysbysiad penderfynu terfynol a'r adroddiad ymchwiliad terfynol i Gyngor Abertawe a'r achwynydd; rhoi hysbysiad i Gyngor Abertawe a'r achwynydd o unrhyw fwriad gan y Comisiynydd i weithredu ymhellach (yn unol ag adrannau 76 a 77 Mesur y Gymraeg)	10 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn sylwadau ynghylch y dyfarniad arfaethedig a'r adroddiad ymchwiliad arfaethedig

Mae'r amserlen yn ganllaw yn unig, gan ddangos beth yw nod y Comisiynydd, a dylid nodi y gallai'r gwir ddyddiadau amrywio gan eu bod yn ddibynnol ar nifer o wahanol ffactorau.